

Centre of  
expertise  
on child  
sexual abuse

# Cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr

Canllaw i weithwyr proffesiynol ym  
maes addysg pan fo pryderon am  
gam-drin rhywiol neu ymddygiad



Tachwedd 2022



## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fgythiad a niwed cam-drin rhywiol.

### Pwy ydym ni

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

### Ein nodau

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

### Yr hyn a wnawn

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

Am fwy o wybodaeth am ein gwaith, ewch i'n gwefan yn: [www.csacentre.org.uk](http://www.csacentre.org.uk) 

*Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan Diana Parkinson o'r Ganolfan CPRh, a chafodd ei addasu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg gan Lorraine Myles o'r Ganolfan CPRh.*

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>5</b>
Beth yw nod y canllaw hwn?.....	5
Diffiniadau ac iaith a ddefnyddir yn y canllaw hwn .....	6
<b>1. Pam y mae ar rieni angen cefnogaeth.....</b>	<b>8</b>
Pan fydd eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.....	8
Pan fydd eu plentyn wedi niweidio rhywun arall yn rhywiol.....	9
<b>2. Cyfathrebu â rhieni y mae eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.....</b>	<b>10</b>
Cam-drin rhywiol mewn ysgolion.....	11
Cam-drin rhywiol y tu allan i amgylchedd yr ysgol .....	12
Cam-drin rhywiol sy'n parhau .....	13
<b>3. Cyfathrebu â rhieni y mae eu plentyn wedi arddangos ymddygiad</b>	
<b>rhywiol niweidiol.....</b>	<b>14</b>
Ymatebion cychwynnol.....	14
Darparu cefnogaeth barhaus .....	15
<b>4. Cyfathrebu â rhieni mewn sefyllfaoedd penodol.....</b>	<b>17</b>
Materion crefyddol neu ddiwylliannol.....	17
Rhwysterau ieithyddol.....	17
Cam-drin domestig .....	18
Anableddau/anawsterau dysgu.....	18
<b>5. Helpu rhieni i gael rhagor o gefnogaeth.....</b>	<b>19</b>
Sefydliadau sy'n cefnogi rhieni .....	19
Adnodau i rieni .....	22
<b>6. Gofalu am eich anghenion eich hun .....</b>	<b>26</b>
Gofalu am eich lles.....	26
Sefydliadau sy'n darparu cymorth .....	26
Adnoddau i'ch helpu yn eich gwaith .....	27
<b>Dogfennau cyfeiriol .....</b>	<b>28</b>
<b>Atodiad 1: Canllawiau Llywodraeth .....</b>	<b>34</b>

# Cyflwyniad

## Beth yw nod y canllaw hwn?

Datblygwyd y canllaw hwn i helpu timau diogelu a staff addysg ehangach i siriad â nhw a darparu ymateb cefnogol i rieni pan fydd pryderon ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol wedi cael eu codi, neu pan fydd cam-drin o'r fath wedi ei nodi.

Mae'n ymdrin â sefyllfaoedd lle mae eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol gan oedolyn neu oedolion, neu wedi profi ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael ei arddangos gan blentyn neu blant eraill; gallai'r gamdriniaeth neu'r ymddygiad hwn fod wedi digwydd yn yr ysgol neu y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Mae hefyd yn cynnig cyngor ar gyfathrebu â rhieni a chefnogi y mae eu plentyn wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.

Nod y canllaw yw eich helpu i ddeall mwy ynglŷn â sut y mae cam-drin plant yn rhywiol yn effeithio ar rieni a'u plant, er mwyn i chi allu eu cefnogi'n effeithiol. Mae'n edrych ar effaith cam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn gwahanol gyd-destunau, a sut y gall camdriniaeth o'r fath effeithio ar deuluoedd yn wahanol. Mae'n egluro pam y mae angen i rieni gael ymateb cefnogol gan ysgol/coleg eu plentyn, a beth mae hyn yn ei olygu. Ac mae'n darparu manylion adnoddau a ffynonellau cefnogaeth a allai fod yn ddefnyddiol i chi a'r rhieni rydych yn gweithio gyda nhw.

Mae argraffiad 2022 o [\*\*\*Keeping Children Safe in Education\*\*\*](#), canllawiau statudol yr Adran Addysg ar gyfer Lloegr, yn cynnwys cyngor ar 'drais rhywiol ac aflonyddu rhywiol rhwng plant mewn ysgolion a cholegau' a oedd yn arfer cael eu cyhoeddi ar wahân. Mae'r canllaw nawr yn nodi'n benodol sut y dylai ysgolion weithio gyda rhieni a gofalwyr, a chyda phlant eraill (gweler [\*\*\*Atodiad 1\*\*\*](#)).

Cefnogir argraffiad 2022 o ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru, [\*\*\*Cadw Dysgwyr yn Ddiogel\*\*\*](#), gan ganllawiau ymarfer pellach sy'n cynnwys [\*\*\*Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan – Diogelu Plant lle mae Pryderon ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol\*\*\*](#); mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i ddeall beth yw ymddygiad rhywiol niweidiol ymhlith plant, gan gynnwys ymddygiad rhywiol niweidiol ar-lein.

Mae'r canllaw hwn yn ceisio cefnogi gweithwyr proffesiynol ym maes addysg i weithredu canllawiau statudol Adran Addysg Lloegr a Llywodraeth Cymru tra hefyd yn ystyried angen ehangach rhieni am gefnogaeth. Mae wedi'i addasu o *Cefnogi Rhieni a Gofalwyr: Canllaw i'r rhai sy'n Gweithio gyda Theuluoedd y mae Cam-drin Plant yn Rhywiol yn Effeithio arnynt*. Rydym hefyd wedi cynhyrchu dau adnodd arall i ysgolion a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

- [\*\*\*Cyfathrebu â Phlant: Canllaw i Weithwyr Proffesiynol ym Maes Addysg Pan fo Pryderon am Gam-drin Rhywiol neu Ymddygiad\*\*\*](#)
- [\*\*\*Cynllunio Diogelwch mewn Addysg: Canllaw i Weithwyr Proffesiynol yn Rhoi Cymorth i Blant yn dilyn Digwyddiad o Ymddygiad Rhywiol Niweidiol\*\*\*](#)

Er mwyn sicrhau bod y canllaw hwn yn hawdd ei ddarllen, rhestrir ffynonellau gwybodaeth yn yr adran [\*\*\*Dogfennau cyfeiriol\*\*\*](#) yn hytrach na'u nodi yn y testun. Hoffem hefyd ddiolch i Joe Dove o SWIFT, Gwasanaethau Plant Dwyrain Sussex, am ganiatáu i ni ddefnyddio cynnwys a ddatblygwyd ganddo ef yn lleol.

Sylwer bod y canllaw hwn yn ymwneud â'ch cyswllt/perthynas â rhieni lle maen nhw wedi rhoi gwybod bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol neu lle rydych chi wedi nodi pryderon y mae angen eu rhannu â rhieni. **Nid yw'n ymwneud â chamau diogelu pan fydd gennych chi bryderon bod plentyn yn cael ei gam-drin yn rhywiol, neu wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.**

Os oes gennych bryderon bod plentyn yn eich ysgol yn cael ei gam-drin yn rhywiol, dylech:

- ystyried unrhyw gamau y mae angen eu cymryd yn ddi-oed i'w ddiogelu rhag yr unigolyn neu'r bobl a allai fod yn ei gam-drin neu sydd wedi ei gam-drin
- cyfeirio'r plentyn i sylw gofal cymdeithasol plant neu gysylltu â'r heddlu lle bo'n briodol.

## Diffiniadau ac iaith a ddefnyddir yn y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â gweithio gyda rhieni a gofalwyr 'nad ydynt yn cam-drin'. Drwy hyn rydym yn golygu rhieni a gofalwyr – yn cynnwys rhieni biolegol, llys-rieni, rhieni mabwysiadol, rhieni maeth a pherthnasau eraill a allai fod yn brif ofalwr y plentyn, fel neiniau a theidiau – nad ydynt wedi ymwneud â cham-drin eu plentyn, er y gallent fod wedi dod i sylw asiantaethau cyn hyn am resymau eraill. Er mwyn cadw pethau'n syml, byddwn yn cyfeirio at y grŵp hwn fel '**rhieni**' a byddwn yn nodi fel arall pan fyddwn yn golygu rhywbeth gwahanol. Defnyddiwn y term **cyd-riant** wrth gyfeirio at riant sydd wedi gwahanu neu ysgaru oddi wrth y rhiant arall.

Am yr un rheswm, yn gyffredinol defnyddiwn y term '**plentyn**' i olygu unrhyw un dan 18 oed. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio y gall plant yn eu harddegau, yn ogystal â phlant iau, gael eu cam-drin yn rhywiol.

Defnyddiwn '**ysgol**' i gyfeirio at fan dysgu plentyn, boed yn ysgol neu goleg.

Rydym wedi dewis osgoi rhai termau sydd weithiau'n cael eu deall yn wahanol neu sy'n teimlo'n anghyfforddus i rai pobl:

- Yn lle 'drwgweithredwr', 'camdriniwr' neu 'gamdriniwr rhyw', siaradwn (mewn perthynas ag oedolion) am y **person sydd wedi cam-drin y plentyn yn rhywiol**, boed ar-lein neu drwy gam-drin cyswllt.
- Yn lle 'cam-drin gan rywun cyfoed' neu 'gam-drin rhwng cyfoedion' dan 18 oed, siaradwn am **ymddygiad rhywiol niweidiol a arddangosir gan blentyn arall**.
- Yn lle 'datgelu camdriniaeth', cyfeiriwn at **ddweud wrth rywun** neu roi gwybod am gamdriniaeth.

### Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

Mae **Cynllun Gweithredu Cenedlaethol: Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol**  Llywodraeth Cymru yn 2019 yn diffinio cam-drin plant yn rhywiol fel:

... gorfodi neu ddenu plentyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio, gan gynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddgar neu weithrediadau nad ydynt yn dreiddgar; gweithgareddau heb gyswllt, fel ymhél plant i edrych ar, neu gymryd rhan mewn, cynhyrchu deunydd pornograffig neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol annerbyniol.

Mae'r Adran Addysg yn Lloegr yn defnyddio diffiniad tebyg yn ei chanllawiau yn 2018 **Working Together to Safeguard Children** , sy'n ychwanegu:

Gall cam-drin rhywiol ddigwydd ar-lein, a gellir defnyddio technoleg i hwyluso cam-drin all-lein. Nid oedolion gwrywaidd yn unig sy'n cyflawni gam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd gam-drin plant yn rhywiol, ynghyd â phlant eraill.

## Beth yw ymddygiad rhywiol niweidiol?

Mae'n bwysig cofio bod rhai mathau o ymddygiadau rhywiol yn rhan o ddatblygiad rhywiol normal ac iach mewn plant. Mae'r Athro Simon Hackett wedi datblygu continwwm i ddisgrifio ymddygiad rhywiol gan blant:

- **Normal** – gyda chonsensws, cydgytundeb, yn ddwyochrog a disgwyliedig i'w datblygiad, gan rannu penderfyniadau.
- **Amhriodol** – digwyddiadau untro'n unig; fel arfer gyda chonsensws, yn ddwyochrog a derbynol mewn grŵp cyfoed, ond efallai mewn cyd-destun amhriodol.
- **Problematig** – efallai'n gymdeithasol annisgwyl, datblygiadol anghyffredin, a diatal, ond heb elfen o fictimeiddio; efallai'n unochrog neu heb bŵer cyfartal.
- **Camdriniol** – ymwthiol, gyda bwriad neu ganlyniad sy'n fictimeiddio; yn aml gydag elfen o fod yn ddichellgar, cam-ddylanwadu, neu ddiffyg caniatâd.
- **Treisgar** – ymwthiol iawn ac efallai ag elfen o sadistiaeth.

Mae'r continwwm yn cydnabod bod adegau pan fydd ymddygiad rhywiol plentyn yn peri pryder. Yn ei gyfraniad i'r llyfr [\*\*\*Children Behaving Badly?\*\*\*](#), mae Hackett yn galw hyn yn 'ymddygiad rhywiol niweidiol', gan ei ddiffinio fel:

Ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed, sy'n ddatblygiadol amhriodol, a allai fod yn niweidiol tuag at yr unigolyn ei hun neu at eraill, neu yn gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn arall.

Os bydd plant cyn y glasoed yn arddangos ymddygiad rhywiol nad yw'n 'normal', mae'n fwy tebygol o fod yn *amhriodol* neu'n *broblematig* nag yn *gamdriniol* neu *dreisgar*. Gallai plant ifanc fod yn ailadrodd camdriniaeth y maent wedi ei phrofi eu hunain ('acting out'), neu'n ymateb i drawma neu esgeulustod arall; mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosibl y byddant yn defnyddio ymddygiad rhywiol fel estyniad o fwlio. Cyfeirir at ymddygiad plant ifanc iawn yn aml fel 'ymatebol rhywiol'; dylech bob amser ystyried a yw'r plentyn ei hun wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.

Yr ardegau cynnar yw'r cyfnod brig ar gyfer achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol, sy'n cael ei arddangos gan fechgyn yn bennaf. Mae rhai gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched: mae merched sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn tueddu i wneud hynny pan maent yn iau na bechgyn. Er hyn, mae'n bwysig cydnabod bod ymddygiad rhywiol niweidiol yn gallu digwydd mewn perthnasoedd o'r un rhyw ar gyfer bechgyn a merched, ac y gall gael ei arddangos gan y rhai sy'n ystyried eu hunain yn drawsryweddol neu anneuaid.

# Pam y mae ar rieni angen cefnogaeth

Pan fydd eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol


Mae darganfod y gallai eu plentyn fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn un o'r digwyddiadau mwyaf dychrynlyd y gall rhiant ei brofi.

Mae rhieni yn y sefyllfa hon yn debygol o gael eu llethu gan sioc, dicter, dryswch ac anghrediniaeth, ac efallai y byddant yn ei chael yn arbennig o anodd i ddod i delerau â'r hyn sydd wedi digwydd pe bai'r gamdriniaeth wedi'i chyflawni gan eu partner neu aelod arall o'r teulu.

Os yw'r plentyn eisoes yn agored i niwed (o ganlyniad i gam-drin domestig, anableddau, salwch meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, er enghraifft), gall ei iechyd a'i les ddioddef ymhellach.

Efallai y bydd hyn yn effeithio ar berthnasoedd rhieni â'r plentyn sydd wedi cael ei gam-drin, eu plant eraill, eu teulu ehangach a'u ffrindiau.

Gall effaith dysgu am y gamdriniaeth fod yn enfawr ac yn gymhleth, yn y tymor byr ac yn y tymor hir.



Mae bod yn gefnogol i rieni yn y sefyllfa hon yn hanfodol oherwydd gall eu helpu i:

- gefnogi eu plentyn yn ei dro, gan leihau effaith y gamdriniaeth ar y plentyn
- annog a helpu eu plentyn i ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol a chael mynediad at wasanaethau
- amddiffyn eu plentyn rhag camdriniaeth bellach.

**Mae ar rieni angen cefnogaeth er mwyn iddynt allu amddiffyn a chefnogi eu plentyn.**



## Pan fydd eu plentyn wedi niweidio rhywun arall yn rhywiol

Efallai y bydd rhieni sy'n darganfod bod eu plentyn wedi niweidio rhywun arall yn rhywiol yn profi teimladau o:

- fethiant
- sioc a gwadu
- euogrwydd, cywilydd a bai
- ynysu a stigma
- colled a galar
- dryswch/ansicrwydd am ryw a pherthnasoedd
- cael eu llethu
- bod allan o reolaeth ac yn ddi-rym, yn enwedig pan fydd gweithwyr proffesiynol yn ymwneud â'r achos.

Drwy ofyn i'r rhiant/rhieni sut maen nhw'n teimlo a chydabod pa mor anodd yw'r sefyllfa iddyn nhw, gallwch eu helpu i reoli'r teimladau hynny a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Os ydych yn ymatal rhag barnu eu plentyn, bydd hyn yn helpu i leihau unrhyw euogrwydd a chywilydd y gallent fod yn ei deimlo, a bydd siarad am yr hyn y mae angen iddo ddiwydd yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o reoli'r sefyllfa.



# 2

## Cyfathrebu â rhieni y mae eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol

Pan ddarganfyddir, neu pan fydd amheuaeth, bod plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, mae'n bwysig bod y rhiant/rhieni yn gwybod sut y mae'r ysgol yn bwriadu cefnogi'r plentyn.

Bydd rhywfaint o'r gefnogaeth hon yn dibynnu ar gyd-destun y gamdriniaeth (e.e. a yw wedi digwydd yn yr ysgol ynteu y tu allan i'r ysgol), ac mae rhan olaf y bennod hon yn cynnwys canllawiau ar gefnogaeth sy'n berthnasol i'r gwahanol gyd-destunau hyn – ond mae rhai camau cyffredinol y gall ysgolion eu cymryd i gefnogi rhiant/rhieni unrhyw blentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol neu a allai fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol.

Weithiau mae gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn ei chael hi'n anodd i wneud synnwyr o bryderon ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol, yn enwedig os ydynt wedi gweld y sawl sy'n cael ei amau o niweidio'r plentyn o'r blaen (boed yn blentyn arall neu'n oedolyn) mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n bwysig rhoi unrhyw ryngweithiadau blaenorol rydych wedi cael o'r neilltu, a gweithredu'n gefnogol bryd hyn tuag at rieni'r plentyn (nad ydynt yn cam-drin) – er mwyn diwallu eu hanghenion hwy eu hunain, a hefyd er mwyn eu helpu i amddiffyn a chefnogi eu plentyn (ac unrhyw blant eraill yn y teulu) tra'n dod i delerau â'r gamdriniaeth.

Efallai y bydd y rhiant/rhieni yn gwerthfawrogi gwybod bod yr ysgol wedi rhoi rhai strategaethau cefnogol yn eu lle, a allai gynnwys:

- caniatáu i'r plentyn ddefnyddio arwydd cynnil (e.e. cerdyn) er mwyn iddo allu dangos i athro/athrawes bod arno angen amser allan neu bod arno angen mynd at berson diogel neu i le diogel
- caniatáu i'r plentyn ffonio adref os yw'n teimlo'n orbryderus neu'n ofidus
- ystyried angen y plentyn am breifatrwydd – er enghraifft, ni fydd staff ysgol yn atgoffa'r plentyn am apwyntiad os gall myfyrwyr eraill glywed.

Efallai y bydd y rhiant/rhieni hefyd yn gwerthfawrogi gwybod y gallant gefnogi eu plentyn drwy:

- helpu'r plentyn i benderfynu gyda pha gyfoedion (os o gwbl) y mae am siarad, beth i'w ddweud wrthynt, a phryd
- ei atgoffa pa staff yn yr ysgol sy'n gwybod am ei sefyllfa, ac at ba rai y gall fynd os bydd arno eisiau siarad â rhywun neu os bydd yn teimlo'n ofidus
- gwneud 'blwch tawelu' i'r plentyn (e.e. eitemau y gall eu cadw yn ei boced a'u tynnu o'i boced i gael cysur)
- adolygu ei amserlen i nodi gwersi neu adegau llai strwythuredig yn ystod yr wythnos a allai fod yn anodd iddo.

Bydd angen i staff yr ysgol a'r rhiant/rhieni fod yn ymwybodol o effeithiau posibl y gamdriniaeth ar emosiynau ac ymddygiad y plentyn:


- Efallai y bydd y profiad wedi effeithio ar rychwant canolbwyntio'r plentyn – efallai y bydd angen iddo gael tasgau neu waith cartref wedi'i rannu'n ddarnau llai, â seibiant rheolaidd a help i ailganolbwyntio os bydd ei 'feddwl yn crwydro' a'i fod yn edrych yn freuddwydiol.
- Efallai y bydd y plentyn yn cyflawni'n well na'r disgwyl fel ymateb i'r gamdriniaeth. Os bydd hyn yn digwydd, dylai staff yr ysgol geisio sicrhau nad yw'r plentyn yn cael llai o gefnogaeth na phlant y mae eu hymddygiad yn cael ei ystyried yn fwy heriol.
- Efallai y bydd ar y plentyn angen cefnogaeth ychwanegol yn ystod adegau llai strwythuredig o'r diwrnod, er enghraifft cael ei gyfeirio at weithgareddau mwy strwythuredig neu gael 'bydi'.
- Os yw'r plentyn wedi cael ei gam-drin drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol, efallai y bydd arno angen i'w riant/rieni nodi'n glir nad arno ef roedd y bai am y gamdriniaeth. Mae perthnasoedd y plentyn â'i gyfoedion yn debygol o ddioddef, ynghyd â pherthnasoedd ei rieni â rhieni unrhyw blant a oedd yn gysylltiedig â'r gamdriniaeth.

Mae'n bwysig bod staff ysgol yn cydnabod y gallai unrhyw ymddygiad problematig gan y plentyn fod yn ymateb i'r gamdriniaeth, a chefnogi'r plentyn drwy systemau bugelliol yr ysgol yn hytrach na dilyn trywydd disgyblu: er enghraifft, ni ddylid cyflwyno camau disgyblu i blant y mae eu lefelau cyrhaeddiad neu bresenoldeb yn gostwng. Dylid cydnabod hefyd y gall trawma'r gamdriniaeth effeithio ar gof gweithredol plentyn, ac y gallai dysgu a oedd wedi'i ymwreiddio cyn hyn gael ei effeithio'n fawr.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gan gynnwys strategaethau defnyddiol, yn adran B6 o'n canllaw [\*\*Cynllunio Diogelwch mewn Addysg\*\*](#) 

## Cam-drin rhywiol mewn ysgolion

Mae rhiant/rhieni plentyn sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol yn yr ysgol yn debygol o fod yn poeni ynglŷn â'u plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. P'un a ydych chi'n gorfod dweud wrth y rhiant/rhieni beth sydd wedi digwydd, ynteu eu bod hwy wedi dweud wrthydych chi amdano, mae nifer o bethau y mae angen i chi eu gwneud wrth siarad â hwy:

- **Sylweddoli a chydabod yr ing y maent yn debygol o fod yn ei deimlo – gallai hyn gael ei amlygu fel dicter.**
- **Bod yn glir ynglŷn â beth sydd wedi digwydd.** Mae'n bwysig bod yn benodol, cynnwys gwybodaeth ynglŷn â ble a phryd y digwyddodd y gamdriniaeth.
- **Defnyddio iaith nad yw'n lleihau profiad y plentyn.** Cadw unrhyw ddisgrifiadau yn ffeithiol gan gydnabod sut y gallai'r plentyn fod yn teimlo.
- **Gadael i'r rhiant/rhieni wybod beth yn union rydych wedi ei wneud i sicrhau bod eu plentyn yn ddiogel** – bydd ar y rhieni eisiau sicrwydd, yn gwbl gymwys, bod diogelwch y plentyn yn cael blaenoriaeth. Gadewch iddynt wybod sut a phryd y bydd y camau rydych yn eu cymryd yn cael eu hadolygu.
- **Gadewch i'r rhieni wybod pwy fydd yn darganfod mwy ynglŷn â beth sydd wedi digwydd.** Pan fydd plant 10 oed a throsodd wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, efallai y bydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad i'r hyn sydd wedi digwydd.
- **Trafodwch y gefnogaeth y gall eu plentyn ei chael yn yr ysgol.** Gallai hyn gynnwys addasu ei amserlen neu ganiatáu iddo adael ystafell ddosbarth heb gael ei gwestiynu, er enghraifft. Gweler dechrau'r bennod hon am ragor o awgrymiadau, ynghyd ag adran B6 ein canllaw [\*\*Cynllunio Diogelwch mewn Addysg\*\*](#) .
- **Byddwch yn glir ynglŷn â'r canlyniadau** – rhowch wybodaeth benodol, glir ynglŷn â beth fydd yn digwydd nesaf, gan gynnwys gadael i'r rhieni wybod beth mae protocol yr ysgol ei hun yn ei ddweud.

## Cam-drin rhywiol y tu allan i amgylchedd yr ysgol

Mae llawer o rieni'n gwerthfawrogi cael rhywun y tu allan i'r teulu i droi ato am arweiniad a chefnogaeth ar ôl cael gwybod bod eu plentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol, neu bod amheuaeth y gallai hynny fod wedi digwydd. Gall eich ysgol ddarparu cefnogaeth ac arweiniad gwerthfawr. Os byddwch yn dilyn dull gweithredu cefnogol gyda rhieni, gall eu helpu i deimlo'n fwy abl i gefnogi eu plentyn a gofyn i chi am help pan fydd arnynt angen.

### Mae'n hanfodol **nad ydych:**

- yn rhagdybio bod y rhieni'n gwybod am y gamdriniaeth
- yn rhoi'r argraff iddynt eich bod yn meddwl eu bod wedi methu ag amddiffyn eu plentyn
- yn canolbwyntio ar 'egluro' y gamdriniaeth ar draul darparu gwybodaeth a chefnogaeth.

Gall yr ysgol ddarparu lle diogel, oddi wrth y plentyn, i'r rhieni allu prosesu'r hyn y maent wedi ei glywed ac i weithio drwy rywfaint o'r sioc, yr euogrwydd a/neu'r dicter y gallent fod yn ei deimlo. Efallai y bydd arnynt angen gwybodaeth a chefnogaeth i ddefnyddio gwasanaethau yn y gymuned a all eu helpu hwy a'u plentyn.

Sylwer y bydd rhieni'n fwy agored i niwed os ydynt yn profi cam-drin domestig a/neu os ydynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol eu hunain. Efallai hefyd y byddant yn wynebu bygythiadau a thrais parhaus oddi wrth yr unigolyn/unigolion sydd wedi cam-drin eu plentyn. Mae'n bwysig holi'r rhiant/rhieni a oes ganddynt unrhyw ofnau neu bryderon ynglŷn â:

- beth allai eu partner/cyd-riant fod yn ei feddwl neu'n ei wneud
- beth allai aelodau eraill o'u teulu fod yn ei feddwl neu'n ei wneud
- beth allai aelodau o'u teulu/cymuned ehangach fod yn ei feddwl neu'n ei wneud.

### **Os oes ganddynt unrhyw ofnau neu bryderon, dylech weithredu:**

- Nodi pwy mae eu pryderon yn ymwneud â hwy a beth maen nhw'n bryderus amdano.
- Os yw eu hofnau'n gysylltiedig â phriodas dan orfod, camdriniaeth sy'n seiliedig ar 'anrhydedd' neu'r risg y bydd y plentyn (ac o bosibl y rhiant ei hun) yn cael ei anfon dramor, gofynnwch am gyngor gan sefydliadau arbenigol (gweler isod) a rhowch drefniadau diogelu yn eu lle.
- Cefnogwch hwy er mwyn canfod sut y gallai eu hofnau neu eu pryderon effeithio ar eu perthynas gyda'u plentyn.
- Helpwch hwy i nodi eu rhwydwaith cefnogaeth – ymhlith ffrindiau, teulu a'r gymuned.
- Gweithiwch gyda hwy i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, a gofynnwch am gefnogaeth gan unrhyw sefydliadau a all eu helpu i ymgysylltu'n llawn â'r broses hon.

## Cam-drin rhywiol sy'n parhau

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae cam-drin plant yn rhywiol yn parhau ar ôl i'r gamdriniaeth gael ei nodi. Mae hyn yn gyffredin mewn achosion lle mae plentyn yn cael ei gam-drin gan grŵp, gang neu rwydwaith: ni all y plentyn ddianc oddi wrth y bobl sy'n ei gam-drin, a allai fod yn defnyddio bygythiadau o drais yn erbyn aelodau eraill o'r teulu i gadw'r plentyn yn eu rheolaeth. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai y bydd y plentyn yn mynd ar goll, yn colli ysgol, yn aros allan drwy'r nos, yn yfed neu'n cymryd cyffuriau, neu'n ymddwyn yn ymosodol yn yr ysgol.

Mae hyn yn debygol o fod yn anodd ac yn flinedig iawn i riant/rhieni'r plentyn. Os yw eu plentyn yn absennol o'r ysgol yn aml, efallai y byddant hefyd yn poeni beth allai ddigwydd iddynt os bydd hyn yn parhau. Mae'n bwysig eu sicrhau na fydd unrhyw gamau disgyblu'n cael eu cymryd yn eu herbryn am absenoldeb eu plentyn, ac mai eich blaenoriaeth chi yw eu cefnogi hwy a'u plentyn.

Efallai y bydd y rhiant/rhieni yn gwerthfawrogi os gallwch gadw mewn cysylltiad â hwy, i'w helpu i feddwl sut y gallant ddal i gefnogi eu plentyn. Mae'r sefydliad Rhieni yn erbyn Camfanteisio ar Blant (PACE) yn dweud mai'r pethau pwysicaf i rieni yw peidio ag anobeithio; dal i ddweud wrth eu plentyn eu bod yn ei garu; a bod yn ffyddiog, sut bynnag y mae pethau'n edrych, bod eu cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w plentyn. Mae hefyd yn awgrymu y dylai rhieni geisio creu cyfleoedd i gysylltu â'u plentyn, yn seiliedig ar ddiddordebau'r plentyn (er enghraifft, gwyllo rhaglenni teledu gyda'i gilydd, coginio, mynd i'r gampfa neu gael triniaethau harddwch gyda'i gilydd), sy'n rhoi cyfleoedd i gryfhau'r berthynas rhiant/plentyn. Os yw gweithgareddau ar y cyd neu gyfathrebu geiriol rhwng rhiant/rhieni a phlentyn yn anodd neu'n arwain at wrthdaro mawr, neu os yw'r plentyn wedi cael ei adleoli oherwydd y risgiau a achosir, gall rhai gweithredoedd ailddatgan bod y rhiant/rhieni yn malio am y plentyn – er enghraifft, rhoi nodiadau post-it yma ac acw neu anfon negeseuon o gariad.

Cofiwch y gallai straen bod yn rhiant yn yr amgylchiadau hyn achosi i'r rhiant/rhieni esgeuluso eu hanghenion, lles a hunanofal eu hunain. Ceisiwch eu helpu i ddeall y bydd gofalu amdanynt eu hunain yn eu galluogi i gynnal y gwytnwch y bydd arnynt ei angen i gefnogi eu plentyn yn ystod y gamdriniaeth ac ar ôl hynny.



# 3.

## Cyfathrebu â rhieni y mae eu plentyn wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol

### Ymatebion cychwynnol

Mae'n sioc i rieni glywed bod eu plentyn wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, ac maent yn debygol o deimlo ystod o emosiynau, gan gynnwys dicter, ofn, euogrwydd a bod wedi eu llorio.

Efallai y bydd rhai rhieni'n methu â chredu beth rydych yn ei ddweud wrthynt – gan fod hynny allan o gymeriad y plentyn y maen nhw'n ei adnabod – neu'n methu â derbyn y niwed sydd wedi'i wneud. **Arhoswch yn ddigynnwrf** a rhowch amser iddynt dderbyn yr **wybodaeth glir** rydych yn ei rhoi; efallai y bydd angen mwy nag un sgwrs ar gyfer hyn, oherwydd mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd i glywed unrhyw beth rydych yn ei ddweud ar ôl sioc y wybodaeth gychwynnol. **Sicrhewch** hwy y byddwch yn gweithio gyda hwy i wneud yn siŵr bod eu plentyn yn ddiogel, a lle bo'n briodol, y bydd yn dychwelyd i batrwm ysgol arferol cyn gynted ag y bo modd – bydd hyn yn dibynnu ar ddirifoldeb y sefyllfa, ac efallai y bydd angen cynllunio diogelwch i gefnogi'r broses hon.

Mae **ymatal rhag barnu** yn hollbwysig er mwyn rhoi ymateb cadarnhaol i rieni, yn enwedig gan ei bod yn bosibl eu bod yn beio eu hunain am ymddygiad eu plentyn. Efallai y bydd gan rieni sydd wedi profi camdriniaeth rhywiol eu hunain ymatebion emosiynol cryf i glywed beth mae eu plentyn wedi ei wneud, a gallent fod yn teimlo'n flin gyda'r plentyn.

Efallai y byddai'n werth mabwysiadu agwedd 'addysgwch fi' drwy ofyn cwestiynau i'r rhiant/rhieni, er enghraifft "Cyda beth rydych chi angen help?" neu "Beth ydych chi'n poeni fwyaf amdano ar hyn o bryd?", i adeiladu gwell dealltwriaeth o'u hanghenion unigol. Dylech ystyried y canlynol cyn siarad â'r rhiant/rhieni:

- **Cytuno ar y derminoleg y byddwch yn ei defnyddio.** Bydd teuluoedd yn defnyddio llawer o wahanol eiriau wrth gyfeirio at rannau sensitif o'r corff. Cytunwch ar y derminoleg y byddwch yn ei defnyddio yn ystod y cyfarfod. Bydd hyn yn helpu i normaleiddio eich trafodaethau ac yn eich helpu i hybu sgwrs fwy cyfforddus. Er enghraifft, dechreuwch drwy ddweud:

*"Efallai eich bod wedi dysgu geiriau penodol i'ch mab/merch am y genitalia, ond byddaf i'n cyfeirio at y genitalia drwy ddefnyddio eu termau cywir, 'pidyn'neu 'fagina'."*

- **Bod yn glir ynglŷn â beth sydd wedi cael ei honni/arsylwi.**

*"Dywedodd merch yn nosbarth eich mab ei fod wedi cydio yn ei bronnau dros ei chrys ysgol pan oeddent yn y cae chwarae yn ystod amser egwyl. Dywedodd ei fod wedi dal ei law yno am tua pum eiliad er ei bod hi wedi dweud wrtho am dynnu ei ddwylo oddi arni a cheisio mynd oddi wrtho."*

- **Archwiliwch y pryderon gyda'ch gilydd.**

*"Tybed a oes gennych chi unrhyw bryderon ynglŷn â'ch plentyn yn ymddwyn yn rhywiol? Efallai nad oeddech yn siŵr ynglŷn â hynny neu nad oeddech yn gwybod gyda phwy i siarad am y mater?"*

*"Dw i'n sylweddoli y gallai hyn fod yn anodd i chi ei glywed, ac ro'n i'n meddwl tybed a allech chi feddwl am unrhyw reswm pam y gallai fod wedi ymddwyn fel hyn?"*

- **Bod yn glir ac yn ffeithiol wrth rannu gwybodaeth.** Rhowch gymaint o wybodaeth ag yr ydych yn credu ei bod yn briodol i'r rhieni heb wneud pethau'n anodd i'r plentyn neu'r plant eraill. Defnyddiwch iaith glir, gan dderbyn y gall siarad am gam-drin rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol fod yn anodd iawn i'r rhiant/rhieni ei glywed. Disgrifiwch y ffeithiau a pheidiwch â barnu.

- **Eglurwch beth fydd yn digwydd nesaf.** Mae bob amser yn bwysig canolbwyntio ar *ymddygiad* y plentyn, yn hytrach na chanolbwyntio ar y plentyn ei hun. Bydd defnyddio iaith glir a pheidio â gweld bai yn helpu i osgoi ymateb amddiffynnol gan y rhieni. Er enghraifft:

*“Pan fydd achos o ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng disgyblion/myfyrwyr, mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i asesu difrifoldeb yr ymddygiad.”*

*“Rydym wedi defnyddio offeryn asesu i’n helpu i asesu a yw’r ymddygiad rhywiol honedig yn iach, yn broblematig neu’n niweidiol.”*



- **Amlinellu’r canlyniadau posibl.** Gallai’r rhain amrywio o eglurhad nad yw ymddygiad y plentyn yn briodol a bod angen defnyddio gweithdrefnau disgyblu’r ysgol, i atgyfeirio at ofal cymdeithasol plant a/neu’r heddlu.
- **Trafod sut rydych yn bwriadu cefnogi’r plentyn.** Gallai hyn gynnwys cyfeirio at asiantaeth arbenigol, dyrannu mentor yn yr ysgol neu weithio ar addysg am berthnasoedd iach a chyffwrdd diogel.
- **Trafod sut y gallwch gefnogi’r rhieni.** Mae hyn yn debygol o gynnwys rhoi person allweddol enwebedig iddynt a rhif cyswllt er mwyn iddynt gael cyswllt uniongyrchol â rhywun sy’n gyfarwydd â’r holl fanylion, yn ogystal â rhoi gwybodaeth iddynt ynglŷn â ble y gallant gael cefnogaeth eu hunain. (Gweler **Pennod 5** hefyd.)

## Darparu cefnogaeth barhaus

Gall ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng plant deimlo’n frawychus ac yn gymhleth, ac efallai y byddwch yn rheoli sefyllfaoedd anodd iawn. Efallai y bydd y cyngor isod yn ddefnyddiol i chi:

### Cynllunio diogelwch

Os yw plentyn wedi ymddwyn mewn ffordd rhywiol niweidiol, mae’n debyg y bydd angen cynllunio diogelwch.

- Dylech gynnwys y plentyn mewn prosesau cynllunio diogelwch yn amgylchedd yr ysgol, a defnyddio geiriau sy’n gyfarwydd iddo; po fwyaf ystyrlon yw’r cynllun i’r plentyn, po fwyaf y bydd yn gallu cymryd perchnogaeth ohono. Mae Pennod 3 o’n canllaw **Cyfathrebu â Phlant**  ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes addysg yn cynnwys mwy o wybodaeth.
- Dylech gynnwys rhieni’r plentyn hefyd – mae angen i’r plentyn gael yr un negeseuon ym mhob agwedd ar ei fywyd. Gweler ein canllaw **Cynllunio Diogelwch mewn Addysg**  yn enwedig adran B3. Cofiwch, fodd bynnag, ei bod yn bosibl nad yw’r teulu erioed wedi siarad gyda’i gilydd am ryw o’r blaen a’i bod yn bosibl nad oes ganddynt yr iaith i wneud hynny nawr; yn y sefyllfa hon, mae angen i chi feddwl sut rydych yn datblygu iaith gyffredin.
- Os digwyddodd ymddygiad rhywiol niweidiol y plentyn yn ei gartref (e.e. camdriniaeth rhywiol gan frawd neu chwaer), efallai y byddai’n briodol i rywun o’r ysgol fod yn ymwybodol o gynllunio diogelwch yn y cartref, gan y bydd gan yr ysgol rôl i’w chwarae wrth rannu negeseuon cyson ym mhob agwedd ar fywyd y plentyn.
- Bydd angen ystyried rhai mesurau ar unwaith (er enghraifft rheoli cyswllt yn yr ysgol rhwng y plentyn a’r rhai sydd wedi cael eu niweidio ganddo), ond gall elfennau eraill ar gynllunio diogelwch gymryd mwy o amser. Weithiau mae’r broses o gael y plentyn a’i deulu i feddwl sut i hybu diogelwch mor ddefnyddiol â’r cynllun ei hun.

- Meddylwch am gyd-destun yr ymddygiad niweidiol sydd wedi digwydd, er mwyn i chi allu ychwanegu unrhyw gefnogaeth a mesurau diogelwch eraill i'r plentyn a'i gyd-ddisgyblion. Er enghraifft:
  - Ble digwyddodd yr ymddygiad niweidiol? Os digwyddodd yn nhai bach yr ysgol, er enghraifft, beth allwch chi ei wneud i sicrhau nad yw'r plentyn heb oruchwyliaeth yn ystod egwyl tŷ bach?
  - Pryd y digwyddodd yr ymddygiad niweidiol? Os digwyddodd amser cinio, er enghraifft, beth allwch chi ei wneud i oruchwyllo'r plentyn fwy yn ystod amser cinio?
  - A oes unrhyw beth i awgrymu beth allai fod wedi ysgogi'r ymddygiad? (Er enghraifft, y plentyn yn teimlo'n ofidus neu'n flin.) Sut y gall staff ysgol fod yn effro i adegau pan allai'r ymddygiad fod yn fwy tebygol o ddigwydd? Efallai y bydd ar blant iau neu'r rhai sydd ag anableddau angen mwy o gefnogaeth, er enghraifft cael eu hatgoffa yn ystod 'adegau peryglus', i reoli eu hymddygiad eu hunain.

### Rheoli gwrthdaro rhwng rhieni

Pan fydd plentyn yn niweidio plentyn/plant eraill yn rhywiol, mae'r ddwy/pob set o rieni yn debygol o brofi ystod o emosiynau. Dylech gadw cyfrinachedd, ond efallai y byddwch yn gweld bod plant a rhieni yn rhannu gwybodaeth, ac nad yw'r wybodaeth hon i gyd yn gywir. Gall hyn fod yn broblem yn yr ysgol ac yn y gymuned os oes mwy na dwy set o rieni yn gysylltiedig â'r digwyddiad, e.e. pan fydd un neu ddau blentyn wedi niweidio grwpiau o blant yn rhywiol.

- Gwahoddwch y ddwy/bob set o rieni i'r ysgol, ar wahân, i wneud yn siŵr bod gan bawb wybodaeth glir a chywir am yr hyn a ddigwyddodd.
- Cytunwch sut y byddwch yn rhannu gwybodaeth o hyn ymlaen. Yn y cam hwn, dylech ystyried a yw unrhyw un o'r rhieni wedi cael anhawster i ddeall neu gofio'r wybodaeth rydych wedi'i rhannu yn barod. Gall ofn neu ddryswch oherwydd diffyg dealltwriaeth achosi dicter.
- Peidiwch â defnyddio iaith sy'n lleihau ymddygiad neu'n gweld bai. Gall gymryd amser i sefydlu ffeithiau'r hyn a ddigwyddodd, ac mae'n bwysig peidio â barnu unrhyw blentyn, a chydabod teimladau pob un o'r rhieni.
- Gofynnwch a oes unrhyw beth arall y mae'r rhieni'n teimlo y gallech ei wneud. Os ydynt yn meddwl bod camau heb eu cymryd, efallai y byddant yn teimlo bod angen iddynt ddelio â hynny eu hunain. Mae'n bwysig atgoffa'r rhieni beth rydych wedi'i wneud a bod yn glir iawn ynglŷn â beth y byddwch yn ei wneud.
- Cofiwch rannu newyddion cadarnhaol â'r rhieni, megis enghreifftiau o ymddygiad cadarnhaol a ddangoswyd gan eu plentyn.
- Atgoffwch y rhieni ynglŷn â phwysigrwydd cyfrinachedd, a sicrhewch hwy y byddwch yn cadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Gofynnwch iddynt adael i chi wybod os byddant hwy neu eu plentyn yn clywed unrhyw wybodaeth nad yw'n wir neu os ydynt yn pryderu ynglŷn â storïau sy'n mynd o gwmpas.
- Mewn sefyllfaoedd lle mae'r wybodaeth wedi'i rhannu'n ehangach â rhieni yn y gymuned a lle bu ymateb cymunedol i'r wybodaeth, gofynnwch am gyngor gan yr awdurdod lleol cyn gynted ag y bo modd er mwyn atal unrhyw anawsterau dieisiau wrth giât yr ysgol neu yn y cyfryngau.



# Cyfathrebu â rhieni mewn sefyllfaoedd penodol



Byddwch yn ymwybodol bod rhai rhieni yn gweld cyfathrebu â chi am eu plentyn yn anos, ac mae siarad am gam-drin rhywiol – p'un a yw eu plentyn wedi profi cam-drin rhywiol o'r fath ynteu wedi arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol – yn debygol o wneud yr heriau hyn yn waeth.

Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n bwysig meddwl a allai'r rhiant/rhieni fod yn wynebu unrhyw heriau sy'n eu hatal rhag cefnogi eu plentyn, ac ystyried pa rôl y gallwch chi ei chwarae er mwyn eu helpu.

Byddwch yn sensitif i anghenion ac amgylchiadau unigol rhieni, ac osgoi stereoteipiau. Ceisiwch ddeall mwy am eu hanghenion a sut y gallwch chi helpu i ddiwallu'r anghenion hyyny trwy gysylltu â sefydliadau arbenigol i ofyn am gyngor a gwybodaeth (gweler [Pennod 6](#)).

## Materion crefyddol neu ddiwylliannol

Bydd ffydd a diwylliant rhieni yn effeithio ar eu dull o fagu plant, a dylech ystyried sut rydych yn rhoi sylw i hyn wrth eu helpu i gefnogi eu plentyn.

Efallai y bydd rhieni o rai diwylliannau yn poeni y bydd rhywun o'u cymuned (yn enwedig os yw'n gymuned fechan glos) yn dod i wybod beth sydd yn digwydd, oherwydd eu bod yn ofni y bydd hyn yn codi cywilydd ar y teulu ac yn pardduo eu henw da. Mae angen nodi ofnau o'r fath a gweithio drwyddynt, drwy roi cefnogaeth i'r teulu; efallai y bydd arnoch angen cyngor neu gefnogaeth gan sefydliadau arbenigol (gweler [Pennod 5](#)) i wneud hyn.

Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd gwrthdaro rhwng diwylliant rhiant a hunaniaeth ddiwylliannol ei blentyn: er enghraifft, efallai y bydd rhiant yn ymarfer crefydd y mae'r plentyn wedi ei gwrthod, ac efallai y bydd y rhiant yn credu bod y gwrthodiad hwn wedi chwarae rhan ym mhrofiad y plentyn o gam-drin rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'n bosibl y bydd angen i chi helpu'r rhiant i weld bod anghenion ei blentyn ar yr adeg hon yn bwysicach na'i gredoau personol ei hun.

Efallai y bydd rhieni o rai diwylliannau'n ei chael yn arbennig o anodd i siarad â'u plant am faterion rhywiol, a gall hyn olygu eu bod yn ei chael hi'n anodd i dderbyn bod eu plant wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n rhywiol niweidiol (gweler [Pennod 3](#)).

## Rhwystrau ieithyddol

Mae sefydlu cyfathrebu da yn allweddol er mwyn gweithio'n effeithiol â rhieni nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf:

- Mor gynnar ag sy'n bosibl, dylech ganfod pa iaith y mae'n well ganddynt ei siarad, a threfnu gwasanaeth cyfieithu os oes angen. Os ydynt yn gyndyn o ddefnyddio cyfieithwyr, ceisiwch ganfod y rheswm dros hyn; efallai y byddant yn poeni am gyfrinachedd, yn enwedig os ydynt o gymuned fechan glos (gweler 'Materion crefyddol a diwylliannol' uchod), a gallai menywod deimlo'n anghyfforddus wrth siarad drwy gyfieithydd gwrywaidd. Os oes aelod o staff yr ysgol sy'n siarad yr un iaith, ac y mae'r rhiant/rhieni'n teimlo'n gyfforddus ag ef/hi, efallai y byddai'n bosibl i'r person hwnnw gyfieithu.
- Dylech bob amser ofyn i'r unigolyn a yw'n deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Cofiwch y gallai rhywun ddweud 'ydw', a dal i beidio â deall yr hyn sy'n cael ei ddweud, gan nad yw eisiau edrych yn dwp neu oherwydd ei fod yn ofni canlyniadau negyddol.

- Siaradwch â'r cyfieithydd am y ffaith nad oes gan rai teuluoedd eiriau ar gyfer cam-drin rhywiol, sy'n golygu na allant roi darlun llawn.
- Peidiwch â gadael i aelodau o'r teulu (gan gynnwys y plentyn), cymdogion neu ffrindiau gyfieithu neu siarad ar ran rhywun arall.
- Cofiwch nad oes geiriau mewn rhai ieithoedd am 'gam-drin rhywiol', 'trais rhywiol', 'ymosodiad rhywiol' ac yn y blaen. Gallai hyn olygu nad yw'r rhiant/rhieni yn gallu rhoi darlun llawn i chi o brofiadau ei blentyn; yn yr un modd, os yw'r plentyn wedi cael ei gam-drin neu ei niweidio yn yr ysgol neu yng nghyddestun yr ysgol (e.e. ar fws ar y ffordd i'r ysgol), bydd angen i chi feddwl sut i egluro hyn wrth ei rieni. Siaradwch â'r cyfieithydd i weld a yw hyn yn debygol o fod yn broblem, a sut i fynd i'r afael â hyn.

Mae awgrymiadau eraill ar gyfer cyfathrebu'n anffurfiol â rhieni yn cynnwys:

- defnyddio technoleg – nid yw Google Translate yn berffaith, ond mae'n gweithio'n weddol dda
- defnyddio Cymraeg/Saesneg safonol – efallai y bydd rhai rhieni yn siarad Cymraeg/Saesneg bratiog, ond byddant yn gallu deall swm a sylwedd y neges os byddwch yn siarad yn araf ac yn peidio â defnyddio slang, idiomau a chyffelybiaethau
- gofyn i'r rhiant ddweud yn ôl wrthyhych beth mae'n meddwl rydych chi wedi'i ddweud, gan y bydd hyn yn dangos a yw wir wedi deall beth yr oeddech chi'n ceisio'i ddweud wrtho.

## Cam-drin domestig

Os yw'r rhiant yn ddiodefwr cam-drin domestig, gallai ei gefnogi i fod yn ddiogel rhag y gamdriniaeth honno hefyd wella diogelwch a lles ei blentyn:

- Gwnewch yn siŵr nad yw unrhyw gyfathrebu â'r rhiant a/neu ei blentyn yn peryglu eu diogelwch (e.e. drwy adael negeseuon llais, ebost neu destun sy'n cynnwys gwybodaeth sensitif). Os yw'n bosibl, ceisiwch siarad â'r rhiant ar ei ben ei hun. Efallai y bydd angen i chi fod yn rhagweithiol wrth wneud i hyn ddigwydd, gan y bydd y partner sy'n cam-drin yn aml yn ceisio rheoli pob gohebiaeth â hwy.
- Cadwch mewn cof a oes risg i'r rhiant gael ei gamdrafod gan y person sydd wedi cam-drin ei blentyn, yn enwedig os y person hwnnw yw'r partner sy'n cam-drin hefyd, ac y gallai gael ei orfodi i ganiatáu cyswllt heb oruchwyliaeth â'r plentyn. Os ydych yn darganfod hyn, dylech roi gwybod i'r gwasanaethau plant am eich pryderon ar unwaith.

## Anableddau/anawsterau dysgu

Nid yw cael anabledd/anawster dysgu yn atal rhiant rhag deall bod ei blentyn wedi cael ei gam-drin yn rhywiol neu ei fod wedi niweidio eraill yn rhywiol, ond efallai y bydd yn anos egluro a gall gymryd mwy o amser. **Mae cyfathrebu clir yn hollbwysig:**

- **Gwrando** ar y rhiant a **chymryd amser** i ddeall sut y mae'n cyfathrebu.
- Defnyddio geiriau cyffredin, osgoi amwysedd a jargon, a **gwneud yn siŵr bod y rhiant wedi deall.**
- Torri gwybodaeth i lawr i **ddarnau y gellir eu rheoli**, a thorri tasgau cymhleth i lawr i rannau symlach.
- **Rhoi nodyn i'r rhiant** o unrhyw gyngor neu fanylion y cyfarfod nesaf; hyd yn oed os nad yw'n gallu darllen, gall ofyn i rywun y mae'n ymddiried ynddo ei ddarllen iddo.
- **Defnyddio testun mawr** – ysgrifennu popeth mewn teip o leiaf 16 pwynt a defnyddio ffontiau 'sans serif'.

# Helpu rhieni i gael rhagor o gefnogaeth

## Sefydliadau sy'n cefnogi rhieni

Pan fydd cam-drin plant yn rhywiol wedi'i nodi, neu pan fydd amheuaeth ohono, gall gael effeithiau eang ar y plentyn a'i deulu (gweler **Pennod 1**): yn ogystal ag effeithio ar eu hiechyd, eu perthnasoedd ac addysg y plentyn, gall amharu'n fawr iawn ar fywyd y teulu o ddydd i ddydd a hyd yn oed ar eu trefniadau byw. Gall **Cyngor ar Bopeth** [↗](#) ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth am ystod eang o faterion ymarferol.

### Cefnogaeth benodol i rieni sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol













Mae ystod eang o sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i rieni ac aelodau eraill o'r teulu yn y sefyllfa hon.

Enw	Cylch Gorchwyl	Manylion
<b>Acts Fast</b> <a href="#">↗</a>	Cenedlaethol	Yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol parhaus i rieni ac aelodau o'r teulu o blant y mae cam-drin rhywiol yn effeithio arnynt.
<b>Barnardo's</b> <a href="#">↗</a>	<b>Gwasanaethau mewn lleoliadau ledled y wlad</b> <a href="#">↗</a>	Yn rhoi cymorth i rieni mewn rhai ardaloedd, e.e. drwy <b>Brosiect Phoenix Gwlad yr Haf</b> <a href="#">↗</a> .
<b>Family Action: Post Sexual Abuse Service</b> <a href="#">↗</a>	Swydd Gaerlŷr	Yn darparu cymorth therapiwtig i bobl dan 18 oed sydd wedi profi cam-drin rhywiol; mae hyn yn cynnwys gwaith grŵp i rieni i'w helpu i gefnogi eu plentyn a rheoli eu hanghenion eu hunain.
<b>Family Rights Group</b> <a href="#">↗</a>	Cenedlaethol	Gweithio gyda rhieni ac aelodau eraill o'r teulu y mae eu plant mewn angen, mewn perygl neu yn y system ofal. Cynghori ar hawliau ac opsiynau pan fydd gweithwyr cymdeithasol neu lysoedd yn gwneud penderfyniadau am les plant. Hefyd yn rhedeg gwefan <b>Young Parents Advice</b> <a href="#">↗</a>
<b>Sefydliad Lucy Faithfull</b> <a href="#">↗</a>	Cenedlaethol	Yn darparu gwybodaeth a chyngor i bartneriaid, rhieni, perthnasau a ffrindiau pobl yr amheuir eu bod yn cael gafael ar ddelweddau rhywiol o blant neu'n cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol arall sy'n cynnwys plant. Rhedeg llinell gymorth <b>Stop It Now!</b> <a href="#">↗</a>
<b>Sefydliad Marie Collins</b> <a href="#">↗</a>	Cenedlaethol	Yn darparu cymorth i rieni, teuluoedd a phlant sy'n cael eu cam-drin ar-lein.
<b>K Y GHubX</b> <a href="#">↗</a> ( <b>I nbiA cguWL</b> )	Cenedlaethol	Yn darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i rieni nad ydynt yn cam-drin a theuluoedd plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gynnwys drwy linell gymorth gyfrinachol.
<b>NSPCC: Letting the Future In</b> <a href="#">↗</a>	Lleoliadau ledled y wlad	Yn cynnig sesiynau ar y cyd â phlant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol a'u rhieni a'u brodyr a'u chwiorydd, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol.

Enw	Cylch Gorchwyl	Manylion
<a href="#"><u>Parents Against Child Exploitation (Pace)</u></a>	Cenedlaethol	Yn rhoi cymorth i rieni plant sydd, neu sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio gan unigolion y tu allan i'r teulu.
<a href="#"><u>Safer London</u></a>	Llundain	Yn rhoi cymorth i rieni plant sydd wedi profi neu sydd mewn perygl o drais rhywiol neu gamfanteisio.
<a href="#"><u>Safeline</u></a>	Swydd Warwick	Yn cynnig gwasanaethau i deuluoedd plant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol, gan gynnwys cwnsela, cymorth ymarferol ac emosiynol, eiriolaeth, cyngor a gwybodaeth (gan gynnwys llywio'r system cyfiawnder troseddol), a hyfforddiant.

### Sefydliadau sy'n cefnogi menywod a merched o grwpiau lleiafrifoedd ethnig










Ewn	Cylch Gorchwyl	Manylion
<a href="#"><u>African Women's Voices</u></a>	Gogledd-ddwyrain Lloegr	Yn cefnogi menywod Affricanaidd yr effeithir arnynt gan drais ar sail y rhywiau yn Sunderland.
<a href="#"><u>Canolfan Angelou</u></a>	Gogledd-ddwyrain Lloegr	Yn darparu gwasanaethau cyffwrdd ar gyfer menywod a phlant du a rhai sy'n cael eu defnyddio ar draws y Gogledd Ddwyrain.
<a href="#"><u>Canolfan Merched Apna Ghar</u></a>	Gogledd-ddwyrain Lloegr	Yn cefnogi menywod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn Ne Tyneside.
<a href="#"><u>Apna Haq</u></a>	Swydd Efrog	Yn cefnogi menywod a merched o gymunedau Du a rhai sy'n byw yn Rotherham, sy'n profi unrhyw fath o drais.
<a href="#"><u>Prosiectau Asha</u></a>	Llundain	Yn cefnogi menywod a merched De Asia sy'n profi trais.
<a href="#"><u>Rhwydwaith Ashiana</u></a>	Llundain	Yn cefnogi menywod a merched De Asiaidd, Twrci a'r Dwyrain Canol sy'n profi trais yn y cartref a thrais rhywiol.
<a href="#"><u>AWRC</u></a>	Llundain	Darparu gwasanaethau i fenywod o gefndiroedd lleiafrifol ethnig yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig, priodasau dan orfod, cam-drin 'anrhydedd' a cham-drin ffydd.
<a href="#"><u>BAWSO</u></a>	Cymru	Yn darparu cyngor, gwasanaethau a chymorth i bobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth, trais a chamfanteisio.
<a href="#"><u>Sefydliad Claudia Jones</u></a>	Llundain	Yn cefnogi menywod a theuluoedd treftadaeth Caribiaidd Affricanaidd.
<a href="#"><u>Prosiect Halo</u></a>	Cenedlaethol	Yn cefnogi dioddefwyr trais 'anrhydedd', priodasau dan orfod ac anffurfio organau rhywiol menywod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.








Ewn	Cylch Gorchwyl	Manylion
<a href="#"><u>Humraaz</u></a> 	Gogledd-orllewin Lloegr	Yn cefnogi menywod du a rhai sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig, cam-drin rhywiol a thrais.
<a href="#"><u>Canolfan Fenywod IMECE</u></a> 	Llundain	Yn darparu canllawiau, gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth ar gyfer Twrci, Cwrdaidd, Cyprus o Dwrci ac unrhyw fenywod eraill sy'n siarad Twrcaidd.
<a href="#"><u>IKWRO</u></a> 	Llundain	Darparu cymorth, eiriolaeth a chwnsela i fenywod a merched y Dwyrain Canol ac Afghanistan sydd mewn perygl o drais 'anrhydedd', priodas dan orfod, priodas plant, anffurfio organau rhywiol menywod a thrais domestig.
